

gwŷr meirch *ell* cavalry
gwŷr traed *ell* infantry
gwŷr yr ecseis *ell* revenue men
gwydröedig *ans* deviant
gwydroi *bø* subvert
gwyRDD alisarin *eg* alizarin green
gwyRDD bwdgerigar *eg* budgerig
gwyRDD cobalt *eg* cobalt green
gwyRDD crôm *eg* chrome green
gwyRDD efydd *eg* bronze green
gwyRDD llachar *eg* brilliant gre
gwyRDD olewydd *eg* olive gree
gwyRDD porfa *eg* grass green
gwyRDD sudd *eg* sap green

Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Sector Preifat: Astudiaethau Achos



Y Ganolfan Rheolaeth
YSGOL BŴSIES BANGOR BANGOR BUSINESS SCHOOL
The Management Centre



Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Sector Preifat: Astudiaethau Achos

Rhif contract: 190/2007/08

Adroddiad wedi ei darparu i

**Llywodraeth Cynulliad Cymru
Uned Ymchwil Economaidd**

gan

**Canolfan Ymchwil Busnes a Gwybodaeth y Farchnad
Y Ganolfan Rheolaeth, Ysgol Busnes Bangor
Prifysgol Bangor, Gwynedd, LL57 2DG**

**Ffôn: +44 (0) 1248 365900
E-bost: info@themanagementcentre.co.uk**

ISBN 978 0 7504 6525 0

Tabl Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	4
2. Cefndir	16
3. Methodoleg	21
4. Canfyddiadau – Holiadur cychwynnol Cam 2	23
4.1 Rhanbarth	23
4.2 Categori defnydd Cymraeg	24
4.3 Lledaeniad daearyddol	26
4.4 Nifer o weithwyr	27
4.5 Canran y staff sydd yn siarad Cymraeg	28
4.6 Sectorau diwydiant	29
4.7 Polisiâu	33
4.8 Canran y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg â chwsmeriaid	34
4.9 Canran y cwsmeriaid ddwyieithog	35
4.10 Gradd y ddarpariaeth Gymraeg	38
4.11 Ar gyfer y rhai gyda rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg: rhesymau dros y sefyllfa	40
4.12 Ar gyfer y rhai gyda dim ddarpariaeth Gymraeg o gwbl: rhesymau dros y sefyllfa	41
5. Canfyddiadau – holiadur manwl/cyfweliadau	43
6. Argymhellion	57
7. Diweddglo	64
8. Cyfeiriadau	68
9. Atodiad A: holiadur cychwynnol Cam 2	69
10. Atodiad B: holiadur manwl Cam 3/cyfweliadau	76

*Ymwadiad: Mae'r safbwyntiau a gynrychiolir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r
ymgynghorwyr yn unig ac nid ydynt o anghenraid yn cynrychioli
Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ei hasiantaethau.*

1. Crynodeb Gweithredol

Rhwng mis Medi 2008 a mis Mawrth 2010, gwnaed gwaith ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil Busnes a Gwybodaeth y Farchnad (CBRmi) yn yr Ysgol Busnes i mewn i ddefnydd yr iaith Gymraeg mewn amrediad o fusnesau a sefydliadau yn y sector preifat trwy Gymru, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cwmnïau sector preifat yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau tuag at yr iaith wrth ddelio â'r cyhoedd, gan ddewis strategaethau gwahanol iawn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis lleoliad daearyddol, math o gwsmer, sgiliau'r gweithle ac ymrwymiad y rheolwyr i agwedd hon. Mae'r astudiaeth hon wedi ceisio archwilio'r grym y tu ôl i'r penderfyniad i wneud defnydd o'r iaith neu fel arall.

Mae'r astudiaeth yn adeiladu ar waith blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wrth gymharu busnesau sy'n gweithredu mewn amrediad o sectorau, busnesau o wahanol faint, lleoliadau daearyddol gwahanol, a sylfaenai cwsmeriaid. Mae'r astudiaeth wedi ceisio recriwtio busnesau a oedd yn teimlo'n gryf tuag at weithredu yn ddwyieithog, y rhai a oedd yn niwtral a'r rhai a oedd yn teimlo'n negyddol. Drwy gymharu cwmnïau sy'n perfformio gweithgareddau tebyg, ond sydd yn gwneud gwahanol ddefnydd o'r iaith, mae'r adroddiad yn ceisio gwella dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae busnesau yn y sector preifat yn defnyddio'r iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd yr astudiaeth drwy ddefnyddio arolwg electronig o 258 o fusnesau Cymreig wahanol feintiau, sectorau a sylfaen cwsmeriaid, wedi eu dewis o amrywiaeth o gronfeydd data ar gael i'r tîm ymchwil. Cafodd y busnesau eu recriwtio yn uniongyrchol o gronfeydd data cyfredol o tua 1400 o fusnesau a/neu trwy sefydliadau sy'n gwynebu busnesau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) ac ati, i ymateb i holiadur cychwynnol ynghylch eu busnes a rôl yr iaith Gymraeg o fewn hynny. Mae'r canfyddiadau meintiol yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen. O'r 258 o fusnesau yma, nodwyd is-set o 60 o fusnesau ar gyfer astudiaeth agosach, naill ai trwy gyfrwng holiadur mwy manwl neu gyfweliad manwl/ymweliad. Gwnaed ymdrech i gael samplau cynrychioliadol o fusnesau a oedd yn gadarnhaol, yn amwys neu yn negyddol tuag at yr iaith. Mae'r canfyddiadau ansoddol yn cael eu cyflwyno fel cyfres o vignettes, yn ôl y grwpiau yma.

Oherwydd bod crynodeb yr astudiaeth yn rhoi mwy o bwyslais ar yr agweddau ansoddol, 'roedd ystyried cynrychiolaeth ystadegol yn ôl lleoliad daearyddol a ffactorau eraill yn eilradd i'r broses o nodi cwmnïau ar gyfer astudiaeth bellach a oedd gyda barn gadarnhaol, niwtral neu negyddol tuag at yr iaith Gymraeg fel gyrrwr busnes; dylid nodi, fodd bynnag, fod yna gogwydd rhifiadol clir o blaid busnesau oedd yn seiliedig yn y Gogledd, a bod niferoedd isel iawn wedi eu recriwtio o ganolbarth Cymru. Felly, ddylai unrhyw gasgliadau meintiol cael eu darllen gyda'r cafeat y bydd y niferoedd isel yn cyflwyno lefel uchel o ansicrwydd wrth ddeall unrhyw negeseuon sy'n dod i'r amlwg o'r data rhifiadol.

Roedd nifer o heriau yn wynebu'r tîm yn ystod yr ymchwiliad sy'n cael eu hamlygu yma.

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod dirwasgiad, pan oedd pryderon perchnogion busnes a rheolwyr yn canolbwyntio yn aml mewn mannau eraill. Roedd astudiaethau eraill gan gyrrff cenedlaethol yn cynnwys elfennau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn weithredol ar yr un pryd pan oedd yr arolwg cychwynnol yn cael ei wneud. Roedd yna hefyd rhai materion ynghylch dosbarthiad yr arolwg trwy gyrrff diwydiant. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu goresgyn yn foddhaol, ac roedd y nifer o ymatebwyr fel y disgwylir. Cyfyngiadau eraill â'r arolwg oedd ei fod yn **hunan-adroddiadol**: deallir agweddau megis nifer y cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn wael yn aml, ac roedd y graddau y defnyddir Cymraeg o fewn y busnes yn seiliedig ar **ganfyddiad goddrychol** yr ymatebydd.

Gweler isod crynodeb o ganfyddiadau allweddol o'r arolwg electronig cyffredinol o 258 o fusnesau ac yna, i ddilyn, archwiliad agos o 60 astudiaethau achos, lle mae'r categorïau cadarnhaol, niwtral a negyddol yn cael eu hystyried yn eu tro ar gyfer negeseuon pennawd. Mae canfyddiadau allweddol yr holiadur (Atodiad A) ar gyfer y 258 busnesau neu sefydliadau fel a ganlyn (gweler Adran 4 am ragor o ddisgrifiad manwl o'r diffiniadau categori a ddefnyddir):

<u>Dosbarthiad rhanbarthol o'r holl fusnesau a arolygwyd¹</u>	
Gogledd	63%
De	19%
Canol	6%
Cymru gyfan ²	5%

Fe wnaeth y gwaith maes cychwynnol esgor cyfraniad mwy o ymatebion gan fusnesau sy'n seiliedig neu sy'n gwasanaethu yn y Gogledd. Gall nifer o ffactorau wedi cyfrannu: darperir sylw da o'r Gogledd gan y ffynonellau data sydd ar gael o gymharu â Chanolbarth a De Cymru. Yn ogystal, efallai fod y nifer uwch o unigolion sy'n siarad Cymraeg ac wedi eu lleoli yno wedi arwain i'r arolwg ddangos mwy o gyseiniant ar gyfer eu busnes nhw. Felly nid yw'r sampl yn ddelfrydol gynrychioliadol o boblogaeth busnes Cymru gyfan.

<u>Agwedd at ddefnydd yr iaith Gymraeg</u>	
Cadarnhaol	22%
Niwtral	46%
Negyddol	26%

Mae ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr gydag agwedd bositif tuag at ddefnydd yr iaith Gymraeg. Bellach, mae bron hanner yr ymatebwyr (46%) gyda meddwl agored (niwtral) o ran defnyddio'r Gymraeg. Felly, yn nhermau cynllunio ieithyddol mae'n ymddangos fod rhywfaint o le i dargedu defnydd y Gymraeg ymhlith busnesau niwtral o'r fath yng Nghymru.

¹ Lle nad yw'r cyfanswm yn hafal i 100%, mae'r gweddill yn anhysbys neu yn amhenodol, yma ac mewn manau eraill

² Cymru gyfan: fusnesau sydd â lleoliadau lluosog mewn gwahanol ranbarthau Cymru.

<u>Canran y staff Cymraeg eu hiaith</u>	
Staff Cymraeg eu hiaith	Busnesau
0%	26%
1-20%	17%
21-40%	9%
41-60%	7%
61-80%	5%
81-100	21%
[Dim yn gwybod	15%]

Ar yr eithafion, mewn 26% o fusnesau nid oedd unrhyw staff yn siarad Cymraeg, ac mewn 21% roedd 81% -100% staff yn siarad Cymraeg; fodd bynnag, canfyddiad allweddol o'r cwestiwn hwn oedd bod y 59% o'r holl fusnesau ar ôl gyda rhwng 1-100 % staff dwyieithog ar gael iddynt (roedd 15% ddim yn gwybod). Er gwaethaf y lefel o sgiliau dwyieithog ar gael yn y gweithle, mae'r canfyddiadau blaenorol yn dangos mai dim ond 22% o fusnesau sydd yn cymryd agwedd bositif tuag at yr iaith Gymraeg â chwsmeriaid.

<u>Canran y sefydliadau sydd gyda pholisïau</u>	
Cyfleoedd cyfartal	65%
Cwynion	57%
Amgylcheddol	57%
Gofal cwsmer	50%
Yr Iaith Gymraeg	40%
Amrywiaeth	32%

Cadarnhaodd 40% o'r ymatebwyr fod ganddynt bolisi iaith ysgrifenedig yn Gymraeg; fodd bynnag, ac eithrio polisi amrywiaeth, mae'r holl bolisïau eraill gyda lefelau uwch o fabwysiadu. Efallai na fydd masnachwyr Unig a Bach i Ganolig (SMEs) yn gweld y gofyniad i gael polisi o'r fath oni bai eu bod yn gwneud cais tendr yn rheolaidd ar gyfer gwaith yn y sector cyhoeddus. Wrth gwrs, mae'n bosib cael polisi iaith ysgrifenedig yn Gymraeg mewn

Ile heb ymrwymiad go iawn a/neu ddarpariaeth. Ar nodyn cadarnhaol, o'r 60% o ymatebwyr a oedd gyda rhai lefelau o sgiliau dwyieithog, roedd dwy ran o dair wedi mabwysiadu polisiau iaith Gymraeg yn y gweithle.

<u>Canran o staff sydd yn defnyddio Cymraeg gyda cwsmeriaid</u>	
Staff sydd yn defnyddio Cymraeg	Busnesau
0%	41%
1-20%	25%
21-40%	5%
41-60%	5%
61-80%	5%
81-100%	11%

Mewn 41% o fusnesau, nid oedd unrhyw weithwyr yn ymwneud yn weithredol â chwsmeriaid yn Gymraeg. Nid diben y cwestiwn oedd penderfynu ai drwy ddiffyg darpariaeth neu ddiffyg galw oedd hyn. Dim ond mewn 11% o'r busnesau roedd 81-100% o weithwyr yn ymgysylltu â chwsmeriaid yn Gymraeg. Efallai fod rhai ymatebwyr ddim yn ymwybodol o sgiliau ieithyddol eu gweithwyr, neu efallai fod yna gyndyn neu anallu i ymateb i ofynion y cwsmer.

<u>Canran o gwsmeriaid dwyieithog</u>	
Cwsmeriaid dwyieithog	Busnesau
0%	14%
1-20%	43%
21-40%	13%
41-60%	9%
61-80%	8%
81-100%	3%

Mae'r cwestiwn hwn yn groes i'r uchod, gan ganolbwyntio yn hytrach ar allu iaith Gymraeg y cwsmeriaid. Mae 14% o'r busnesau yn ymdrin yn gyfan gwbl â chwsmeriaid sydd (maent yn credu) ddim yn gallu siarad Cymraeg. Dim ond 3% o'r busnesau wnaeth ymateb sydd yn delio â chwsmeriaid sydd yn bennaf yn ddwyieithog (81% -100%).

Wrth gymharu hwn a'r cwestiwn blaenorol, mae dadansoddiad dyfnach yn nodi'r ddau senario eithafol ynglŷn â'r berthynas galw a chyflenwad - sef, y rhai sefyllfaoedd lle nad yw angen iaith y cwsmeriaid yn cael ei fodloni, a'r rhai lle nad yw'r ddarpariaeth sydd yn bresennol mewn gweithwyr yn cael ei defnyddio gyda chwsmeriaid. Mae hyn yn cael ei gynrychioli mewn ffurf graff yn Ffigur 14 ar dudalen 35.

Mae hwn yn faes i ystyried polisi - sut i gyfateb i gyflenwad a galw, neu gynyddu cyfran o'r farchnad trwy gael sgiliau dwyieithog. Mae'r gwahaniaeth rhwng gallu dwyieithog tybiedig a gwirioneddol o ran staff a chwsmeriaid yn faes ychwanegol ar gyfer ymchwilio.

<u>Gradd darpariaeth yr iaith Gymraeg gan % o ymatebwyr</u>	
Gwasanaeth cwsmeriaid yn Gymraeg yn gyfan gwbl	12%
Gweledol, llafar ac ysgrifenedig	20%
Rhyngbersonol/llafar yn unig	10%
Gweledol yn unig ³	8%
Dim ond yn ymateb i geisiadau am wasanaeth yn y Gymraeg	11%
Dim ddarpariaeth Cymraeg o gwbl	23%

Defnyddiwyd y disgrifiadau uchod i gategoreiddio maint defnydd y Gymraeg gan y busnes. Dim ond 12% o'r ymatebwyr oedd gyda gwasanaeth cwsmeriaid Cymraeg cyflawn i gymharu â 23% gyda dim darpariaeth Gymraeg o gwbl. Roedd 61% o fusnesau yn honni y gallent gynnig rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg, a ddylai cymharu hyn gyda'r canfyddiadau gynt

³ Gweledol yn unig: llenyddiaeth hyrwyddo, gwefan ac arwyddion yn ddwyieithog.

Ile'r oedd 51% gyda rhywfaint o sgiliau siarad Cymraeg ar gael iddynt. Gall y canfyddiad yma daflu goleuni pellach ar y ddarpariaeth ieithyddol wirioneddol a gyflwynir gan yr ymatebwyr hynny sy'n dosbarthu eu hunain yn oddrychol fel bod yn niwtral tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n bosib y gellid eu hystyried yn gadarnhaol mewn cymhariaeth wrthrychol â busnesau eraill.

Ar gyfer rhai sydd â rhywfaint o ddarpariaeth Cymraeg –
rhesymau am y sefyllfa (5 Uchaf)

Lleoliad Daearyddol	64%
Uniaethu â Chymru	59%
Galw gan gwsmeriaid	57%
Delwedd briodol	47%
Mantais economaidd	38%

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith fod 38% yn teimlo eu bod yn ennill mantais economaidd, tra bod dim ond 10% yn credu ei bod yn gost-effeithiol i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg.

Ar gyfer rhai sydd â dim darpariaeth Cymraeg o gwbl –
rhesymau am y sefyllfa (4 uchaf)

Diffyg galw gan gwsmeriaid	75%
Nid yw'r iaith Gymraeg yn sgil rydym yn meddu ar	38%
Dim mantais economaidd	37%
Baich ychwanegol ar adnoddau amser cyfyngedig	28%

Yn ogystal â'r data hwn, dywedodd 28% fod ganddynt brinder staff dwyieithog hyderus, tra defnyddiodd 25% eu lleoliad daearyddol fel rheswm.

Graddau'r ddarpariaeth Gymraeg yn ôl canran y cwsmeriaid dwyieithog

Gyda'r cafeat fod y ddau fesur yn amodol ar ganfyddiadau'r ymatebwyr, cymharwyd darpariaeth yr iaith Gymraeg gyda'r nifer o gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg - cyflenwad a galw. Gellir crynhoi'r canfyddiadau fel a ganlyn:

- **0%-20% cwsmeriaid dwyieithog.** Mae bron i 40% o fusnesau gyda sylfaen cwsmeriaid dwyieithog isel yn cynnig dim darpariaeth yn yr iaith Gymraeg o gwbl, gyda dim ond 4% yn darparu gwasanaeth cyflawn i gwsmeriaid Cymraeg. Mae darpariaeth iaith yn seiliedig iawn ar y galw.
- **21%-40% cwsmeriaid dwyieithog.** Mae dros 40% yn cynnig gwasanaeth gweledol, lafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg. Mae'r canran o fusnesau sy'n gynnig dim darpariaeth Gymraeg wedi gostwng yn sylweddol. **Mae hyn yn awgrymu fod cynnydd bach yn y galw am y Gymraeg yn cael effaith sylweddol ar lefel y ddarpariaeth.**
- **41%-60% cwsmeriaid dwyieithog.** Nid yn annisgwyl, mae dros 80% o'r holl fusnesau yn darparu naill ai gwasanaeth gweledol, llafar ac ysgrifenedig neu wasanaeth cyflawn yn y Gymraeg.
- **61% - 80% cwsmeriaid dwyieithog.** Mae patrwm tebyg i'r uchod yn amlwg ond yn rhyfeddol mae bron 15% o fusnesau dim ond yn ymateb yn adweithiol i geisiadau am wasanaethau yn Gymraeg.
- **81% - 100% cwsmeriaid dwyieithog.** Mae pob busnes yn darparu rhai gwasanaethau yn y Gymraeg, er bod llai na 40% yn rhoi darpariaeth llawn.

Felly mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg, hyd yn oed ymhlith busnesau sydd â mwy neu gyflenwad llawn o gwsmeriaid dwyieithog, yn amrywiol ac yn anghyson.

<u>Gradd y ddarpariaeth Gymraeg yn ôl sector</u>		
Gwasanaeth Cymraeg cyflawn	Gwasanaethau cyhoeddus	40%
	Nid-er-elw	38%
Dim ond yn ymateb i geisiadau am wasanaeth yn y Gymraeg	Y cyfryngau	40%
	Gwasanaethau cyhoeddus	40%
Dim darpariaeth iaith Gymraeg o gwbl	Eraill	39%
	Gwasanaethau adwerthu	32%

Mae'r data uchod yn dangos y ddau sector sy'n sgorio uchaf am ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn, y ddau sector fwyaf adweithiol, a'r ddau sector nad oedd yn darparu unrhyw wasanaeth Cymraeg o gwbl. Mae rhai o'r data yn tueddu i bolaru - er enghraifft, yn y categori Ariannol, Cyfreithiol a Gwasanaethau proffesiynol eraill, roedd 31% yn cynnig dim gwasanaeth Cymraeg tra bod 23% yn cynnig gwasanaeth gweledol, lafar ag ysgrifenedig, gyda 23% ychwanegol yn cynnig gwasanaeth Cymraeg llawn. Yn yr un modd, fel y gellir diddwytho yn rhannol o'r uchod, mae rhai sectorau (Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cyfryngau a'r Nid-er-Elw) yn hollti yn gryf rhwng dim ond cynnig gwasanaeth ymatebol i geisiadau a wneir yn y Gymraeg, a chynnig gwasanaeth Cymraeg llawn.

<u>Gradd y ddarpariaeth Gymraeg yn ôl maint y busnes</u>		
Dim darpariaeth Gymraeg o gwbl	Busnes fawr	44%
	Busnesau bach a chanolig	25%
	Busnes meicro	26%
Gwasanaeth Cymraeg gweledol, llafar ac ysgrifenedig	Busnes fawr	33%

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn debyg rhwng busnesau micro a busnesau bach a chanolig, ond y prif ddarganfyddiad yw **nad yw un busnes mawr yn darparu gwasanaeth llawn i gwsmeriaid Cymraeg**, er bod un rhan o dair o fusnesau yn darparu gwasanaeth gweledol, lafar ac ysgrifenedig; fodd bynnag, mae busnesau mawr yn ddwywaith yn fwy tebygol o gael polisi iaith Gymraeg na busnesau micro.

Cyflwynwyd isod y canfyddiadau allweddol o'r holiadur manwl (Atodiad B) yn cynnwys 60 o astudiaethau achos. Cafodd busnesau eu categorio i'r rhai a oedd yn gadarnhaol tuag at ddefnydd y Gymraeg, niwtral a negyddol.

Roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth nad oedd busnesau wedi asesu'n ffurfiol faint o'u busnes sydd yn cael ei gynnal yn Gymraeg, ac felly roeddent yn dibynnu ar amcangyfrifon yn unig.
- Ymhlith y grŵp cadarnhaol, daeth themâu cryf gwleidyddol, ideolegol i'r amlwg.
- Defnyddiwyd geiriau fel 'delwedd' a 'teyrngarwch cwsmeriaid/gofal' yn aml hefyd.
- Ddaeth rôl y ddeddfwriaeth a gwasanaethu y sector cyhoeddus/llywodraeth i fyny tro ar ôl tro fel gyrwyr tuag at fabwysiadu strategaethau busnes dwyieithog. Roedd tendro ar gyfer gwaith yn y sector cyhoeddus yn yrrwr cysylltiedig.
- Amlygwyd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r galw am gynnwys dwyieithog, gyda'r sector cyhoeddus unwaith eto yn cael ei weld fel gyrrwr, ond nodwyd problemau recriwtio staff addas dwyieithog hefyd fel rhwystr.
- Nodwyd yr angen i ddarpariaeth y busnes cyd-fynd â chystadleuwyr eraill yn yr un sector; mae hyn yn berthnasol iawn i hamdden a thwristiaeth.
- Roedd bylchau yn y farchnad, yn enwedig yn y sector cyfreithiol lle yr oedd y galw am gontractau iaith Gymraeg heb ei gyflawni.
- Yn y grŵp niwtral, amlygwyd tystiolaeth o alw tro ar ôl tro fel ffactor a fyddai'n annog busnesau i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.
- Amlygwyd meithrin mwy o deimlad o deyrngarwch cwsmeriaid yn ffactor a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y grŵp hwn.

- Amlygwyd diffyg o unigolion â sgiliau dwyieithog priodol fel rheswm dros fabwysiadu safiad niwtral.
- Yn y grŵp **negyddol**, unwaith eto, amlygwyd **tystiolaeth o alw** (neu ddiffyg ohono), a hefyd **diffyg amlwg o fudd economaidd**, fel ffactorau allweddol pam na fuasai busnesau yn debygol o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Mynegwyd safbwyntiau cryf gan rai ynglŷn â deddfwriaeth ddyfodol a biwrocratiaeth, ac yr effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar fusnes. Roedd un cwmni hyd yn oed yn dweud y byddai'n well iddynt gau yn hytrach na chael eu gorfodi i weithredu polisïau iaith Gymraeg.
- Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r cymorth ymarferol sydd ar gael, ac enwodd un busnes hyn fel rhywbeth a fyddai'n eu hannog nhw i ddarparu gwasanaeth Cymraeg mwy cynhwysfawr.

Ymhlith yr Argymhellion Allweddol yw'r canlynol:

1. Gweithio gydag Asiantaethau Safonau ac Ansawdd Chanolfannau i ddiffinio safonau darpariaeth ddwyieithog sylfaenol (yn hytrach na chynlluniau).
2. Ymgymryd â mwy o asesiadau masnachol o fanteision economaidd a chymdeithasol darpariaeth ddwyieithog.
3. Codi ymwybyddiaeth o faterion dwyieithog prif ffrwd, eu manteision a'r cymorth sydd ar gael ymhlith Rheolwyr Perthynas Busnes fel rhan o raglen Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) yr Adran Menter a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG DET).
4. Targedu cefnogaeth i ardaloedd lle mae cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg ac i'r busnesau sydd yn gwasanaethu marchnadoedd lleol.
5. Targedu Cyngorau Sgiliau Sector (CSSau) a sefydliadau cyngor gyrfaol i dynnu sylw at yr angen cynyddol am, a gwerth, sgiliau dwyieithog yn y gweithle.
6. Gwneud cais y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd yn y sector twristiaeth ('ymdeimlad o le', 'Croeso Cynnes Cymreig') i sectorau eraill (er enghraifft, y sector gofal) drwy fabwysiadu ac addasu strategaethau llwyddiannus.

7. Darparu pecyn cymorth a fydd yn cynorthwyo busnesau i asesu anghenion ieithyddol eu sylfaen cwsmeriaid.

I gloi, y farchnad yw'r gyrrwr ar gyfer gweithredu'r iaith Gymraeg yn y sector preifat. Lle bo'r canfyddiad nad oes marchnad sydd angen darpariaeth gwasanaeth dwyieithog, yna mae'n ofynnol cael tystiolaeth empirig i gadarnhau neu wadu'r dybiaeth hon. Pan fo'n amlwg fod marchnad yn bodoli, mae angen rhagor o fesur - sut mae'n cymharu o ran maint a'r sylfaen cwsmeriaid sydd ddim yn siarad Cymraeg?

Ni ddylai gweld defnydd yr iaith Gymraeg trwy lens hanesyddol y 'fro Gymraeg' yn unig: heddiw mae 'Diaspora' Cymraeg eu hiaith sydd wedi eu cyflogi yn yr ardaloedd trefol mwy, yn arbennig, Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe. Bydd y lledaenu cynyddol o addysg ddwyieithog yn sicrhau na fydd demograffig cwsmer y dyfodol o reidrwydd yn rhannu'r un ffiniau daearyddol tyn fel yn y gorffennol.

Bydd contractio gwasanaethau sector cyhoeddus traddodiadol allan i'r sector preifat (e.e. gofal cymdeithasol) yn gorfodi'r busnesau hyn i weithredu'n ddwyieithog, neu o leiaf iddynt gydnabod y gofyniad hwn drwy fabwysiadu polisiau ffurfiol. Yn yr un modd, bydd y rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a staff y sector gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys hyfforddiant ac addysg, ymwybyddiaeth iechyd, datrysiadau TG, ac yn y blaen yn dod yn ymwybodol yn gynyddol o'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog. Mae'r prinder cwmnïau cyfreithiol sydd yn gallu darparu gwasanaeth drafftio dwyieithog a nodwyd o fewn y 60 astudiaethau achos yn awgrymu bod bylchau yn y farchnad yn bodoli mewn sectorau allweddol.

Yn olaf, ar ôl datganoli, mae'n werth nodi fod rhai busnesau neu gadwyni ledled y DU yn ymddangos yn awyddus i frandio, ymaelodi neu uniaethu eu hunain gyda'u cwsmeriaid Cymraeg, a gwelir mabwysiadu'r iaith Gymraeg o fewn eu brandio a llenyddiaeth fel un ffordd effeithiol o gyflawni'r nod hwn.

2. Cefndir

Amcan yr astudiaeth hon a gomisiynwyd gan Uned Ymchwil Economaidd y Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd archwilio'r ffactorau sy'n penderfynu pam fod cwmnïau sector preifat sy'n gweithredu yng Nghymru yn dewis gwneud defnydd, neu beidio gwneud defnydd, o'r iaith Gymraeg wrth ymwneud â'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull astudiaeth achos, gan ddewis cwmnïau sy'n gweithredu mewn sectorau busnes tebyg, ac yn ymddangos yn eithaf tebyg o ran ffactorau arsylladwy megis eu maint, lleoliad a sylfaen gwsmeriaid, ond sydd gyda pholisïau gwahanol tuag at ddefnydd yr iaith Gymraeg. Drwy gymharu cwmnïau sy'n ymddangos i fod yn perfformio gweithgareddau tebyg mewn mannau tebyg ar gyfer cwsmeriaid tebyg, ond serch hynny sy'n gwneud defnydd gwahanol o'r Gymraeg, bydd yr astudiaeth yn gwella dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae busnesau yn y sector preifat yn gwneud defnydd o'r iaith. Mae'r astudiaeth yn delio efo amrywiaeth o fusnesau gwahanol feintiau a lleoliadau, yn cwmpasu ardaloedd daearyddol gyda chyfrannau uchel ac isel o siaradwyr Cymraeg. Cafodd CBRmi y wybodaeth trwy wahodd cwmnïau sector preifat i lenwi holiadur ar-lein ac, o'r ymatebion a gafwyd, cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda staff perthnasol o sampl fach o gwmnïau. Mae'r astudiaeth hefyd yn tynnu ar ystadegau a gyhoeddwyd a'r llenyddiaeth gyfyngedig sy'n bodoli ar y pwnc hwn. Disgrifir a rhestrir y rhain yn y llyfryddiaeth ar dudalen 65.

Arolygon cysylltiedig blaenorol

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos arolygon cysylltiedig a gynhaliwyd yng Nghymru. Mae prinder ymchwil tebyg rhyngwladol yn gwahardd gwell dealltwriaeth, rhannu canfyddiadau, argymhellion ac arferion gorau.

- 1. Partneriaeth Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru gan Beaufort Research a Menter a Busnes (2005). Pwyntiau i'w nodi, prif ganfyddiadau ac argymhellion yn cynnwys:**
 - Wnaeth arolwg o bron i 2,000 o fusnesau yng Nghymru, yn canolbwyntio ar y sectorau diwydiant hynny, ddod o hyd i "gyfartaledd uwch ar neu angen am sgiliau iaith Gymraeg" ynddynt;
 - Lefel isel o alw (9%) am sgiliau iaith Gymraeg ymhlith gweithwyr, gyda'r diwydiant cyfryngau yn dangos y galw mwyaf (18%);

- Fod lleoliad daearyddol "yn dylanwadu'n fawr ar lefel y galw am sgiliau iaith Gymraeg" gyda chyfran uwch yng ngogledd orllewin Cymru (33%) o'i gymharu â 3% yn ne ddwyrain Cymru;
- Fod busnesau canolig i fawr (dros 50 yn y lleoliad) yr un mor debygol o fod angen sgiliau iaith Gymraeg a busnesau micro (2-4 o weithwyr);
- ran anghenion iaith, ystyriwyd sgiliau siarad a gwranddo yn fwy pwysig na darllen ac ysgrifennu;
- Nodwyd amrywiant Sector yn nhermau anghenion - "Dengys y sectorau Amaeth-Bwyd, y Cyfryngau, Twristiaeth a Hamdden, Cyllid a Gwasanaethau Busnes lefel uwch o anghenion sgiliau iaith Gymraeg na'r sectorau Gofal neu Adwerthu."
- blith y mwyafrif helaeth o fusnesau nad oedd yn cydnabod yr angen am sgiliau iaith Gymraeg, roedd 11% yn rhagweld y sefyllfa yn newid o fewn y 5 mlynedd nesaf, sy'n dangos potensial cynnydd bychan yn y galw am sgiliau iaith Gymraeg;
- Fod rhan fwyaf o fusnesau wedi cael profiad cyfyngedig o hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg neu o'r iaith Gymraeg;
- Nodwyd gan 29% o'r holl ymatebwyr fod eu cwsmeriaid yn hoffi cael y dewis o naill ai Saesneg neu Gymraeg. Amlinellwyd tystiolaeth bellach yn yr adroddiad sydd yn dangos bod 20% o ymatebwyr o'r farn bod cael y sgiliau iaith Gymraeg priodol yn bwysig i lwyddiant eu busnes;
- Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o themâu a materion polisi i'w hystyried gan y Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru ac eraill. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i wella ymwybyddiaeth ymhlith y sector preifat o ran manteision masnachol bosib yr iaith Gymraeg, yn enwedig o ran cadw cwsmeriaid a threiddiad marchnad newydd. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd yr angen i integreiddio'r broses o gynllunio iaith Gymraeg gydag agendâu polisi'r Awdurdod Datblygu Economaidd a Sgiliau/Hyfforddiant fel blaenoriaeth o ran ymgysylltu a'r sector preifat;
- Nodwyd yr angen i gyflwyno sgiliau iaith Gymraeg fel elfen mewn mwy o hyfforddiant generig, megis gofal cwsmer. Un o'r prif resymau dros hyn yw bod busnesau Cymru yn ystyried y gallu i siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg nid fel sgil, ond yn fwy o nodwedd sy'n digwydd yn naturiol. Mae'r adroddiad yn nodi'r canfyddiad hwn fel rhwystr potensial i ddatblygiad pellach sgiliau'r iaith Gymraeg fel offeryn manteisiol masnachol ac economaidd;

2. Grwpiau Ffocws i ystyried y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Sector Breifat gan Mabis - ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2007). Mae canfyddiadau ag argymhellion y deg grŵp ffocws fel a ganlyn:

- Mae cydnabyddiaeth eang bod yr iaith Gymraeg yn cynnig mantais fasnachol/economaidd i fusnesau sector preifat. Defnydd llafar yw'r prif ddefnydd a wneir o'r iaith o fewn busnesau ar hyn o bryd, sy'n cyfeirio at yr angen am fesurau penodol i annog y defnydd o'r iaith yn weledol fel iaith ysgrifenedig ac iaith fusnes;
- Mae awydd cyffredinol i wneud defnydd pellach o'r iaith o fewn busnesau, ond ar yr un pryd mae diffyg sgiliau yn creu rhwystredigaeth, ac felly anogaeth a chefnogaeth sydd eu hangen i fanteisio ar yr ewyllys da;
- Mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau ynghylch y cymorth mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill yn gallu cynnig ar hyn o bryd o ran yr iaith Gymraeg;
- Mae rhai sectorau yn draddodiadol yn llai tebygol o wneud defnydd o'r iaith Gymraeg nag eraill;
- Mae ardaloedd daearyddol yn amrywio o ran y galw am wasanaethau dwyieithog, gallu busnesau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a'r cymorth sydd ar gael i gynorthwyo busnesau sy'n dymuno bod yn fwy dwyieithog;
- Nid yw busnesau yn gwybod digon am eu proffil cwsmeriaid mewn perthynas â darparu gwasanaeth dwyieithog addas a sut mae cwsmeriaid yn ymateb i ddwyieithrwydd;
- Mae yna angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu, ac mae cyflogwyr angen cymorth i fesur y sgiliau Cymraeg o weithwyr a gweithwyr potensial, yn enwedig wrth recriwtio staff i swyddi lle mae'r iaith Gymraeg yn allweddol;
- Rhaid sicrhau fod manteision economaidd dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg yn cael eu diffinio, pecynnu a'u lledaenu'n rhagweithiol ymhlith busnesau;
- O ran cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector preifat, mae angen targedu perchnogion busnesau Cymraeg eu hiaith er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael;
- Mae hefyd angen ystyried sut i gysylltu'r iaith Gymraeg gyda datblygiadau adfywio ehangach (gan weithio gydag eraill) fel bod yr iaith Gymraeg yn gysylltiedig â

llwyddiant a datblygu, gan roi sylw arbennig i gyfleoedd ariannu Ewropeaidd megis rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd;

Cafodd y canfyddiadau uchod eu hystyried ar ddechrau'r arolwg hwn a'u hadlewyrchu yn yr holiaduron Cam 1 a Cham 2. O ganlyniad, roedd yn bosib sefydlu neu reoli allan os byddai elfennau o barhad yn y canfyddiadau yn dod i'r amlwg, ac felly penderfynu mewn mwy o ddyfnder pha ffactorau penodol sydd yn gyrru agweddau tuag at ddefnydd y Gymraeg. Ymhellach, yn y blynyddoedd diwethaf, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi comisiynu arolygon i gasglu barn y cyhoedd Cymru am yr iaith Gymraeg, crynodeb o rain sy'n dilyn:

Arolwg NOP 1995

- 71% o'r ymatebwyr yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru;
- 77% gyda'r farn fod yr iaith Gymraeg yn fantais i Gymru;
- 88% gyda'r farn y dylai Cymru fod yn falch o'r iaith;
- 75% gyda'r farn y dylai Cymraeg a Saesneg cael statws cyfartal;
- 82% gyda'r farn fod arwyddion dwyieithog yn syniad da.

Adolygiad Beaufort 2008

- 74% o ymatebwyr gyda'r farn bod y Gymraeg yn ased i Gymru;
- 82% yn ystyried fod Cymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono;
- 73% yn ystyried fod Cymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru.

Cyd-destun

Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar y sector preifat i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae rhai cyrff wedi penderfynu darparu gwasanaethau dwyieithog a/neu Gynllun Iaith Gymraeg, tra bod eraill wedi cael eu henwi fel cyrff cyhoeddus o dan adran 6(1)(b) o'r Ddeddf. Mae eraill yn darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy gaffael gyda'r sector cyhoeddus, ac mae felly dyletswydd arnynt i gydymffurfio â rhannau perthnasol Cynllun Iaith Gymraeg y corff cyhoeddus. Un o'r targedau yn 'Iaith Pawb - Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog' yw bod erbyn 2011 bydd "mwy o wasanaethau gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gallu cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg." Mae 'Iaith Pawb' hefyd yn datgan yr

angen i gau'r gwahaniaeth rhwng ymchwil a gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a phwysigrwydd polisi sydd yn seiliedig ar dystiolaeth.

3. Methodoleg

Yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai arolygon blaenorol ynghylch yr iaith Gymraeg yn y sector preifat wedi bod yn broblemus o ran sicrhau cyfranogiad, mabwysiadwyd y fethodoleg ganlynol:

Cam 1

Ar y sail bod yna tua 85,000 o fusnesau wedi eu cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru, cafodd rhwng 800 - 1,000 o fusnesau eu targedu gan sefydliadau, naill ai drwy gronfeydd data o fusnesau yn y sector preifat neu sefydliadau ymbarél sy'n cynrychioli busnesau yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cangen Gymreig y Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB), Siambrau Masnach a Mentrau Iaith Gymraeg. Mae'r arolwg wedi targedu sectorau a busnesau sy'n darparu gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru yn hytrach na'r rhai busnesau sy'n darparu gwasanaeth penodol neu arbenigol i gynulleidfa darged diffiniedig. Y sectorau yma gafodd eu targedu mewn astudiaethau ymchwil blaenorol gyda'r bwriad o sefydlu os oedd cyswllt cydweithiol a pharhad rhwng canfyddiadau - yn enwedig o ran barn ac agweddau tuag at yr iaith Gymraeg. Ymhellach, roedd rhaid cael cydbwysedd sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli defnydd amrywiol o'r Gymraeg ymysg busnesau sector preifat, ynghyd â chynrychiolaeth ddaearyddol gytbwys ac yn nhermau maint y busnes (bach, canolig a mawr). Targedwyd busnesau yn y sectorau canlynol - archfarchnadoedd, ariannol, adwerthu, lletygarwch a thwristiaeth, chwaraeon, sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector busnes, delwyr cerbydau, ystafelloedd arddangos a modurdai, cyfleustodau, y trydydd sector, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (ICT), ymgynghorwyr busnes, trafndiaeth a gwasanaethau cyfreithiol/busnes.

Cam 2

Trwy e-bost uniongyrchol i fusnesau a chyrrff cynrychioliadol, ceisiwyd cael cyfranogiadau drwy lenwi holiadur ar-lein (Atodiad A) neu, fel arall, i gael gweithiwr maes i gynnal cyfweiliad dros y ffôn a oedd yn seiliedig ar yr holiadur. Llwyddwyd cael cyfradd ymateb o 30% neu 250 o ymatebion, gyda 258 o fusnesau yn cwblhau holiaduron, yn bennaf ar-lein.

Cam 3

Allan o'r 258 o fusnesau cychwynnol a gymerodd ran yng Ngham 1, tynnwyd sampl o 60 (neu 24%) o fusnesau a'u gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb neu holiadur manwl (Atodiad B) - yn unol â'r defnydd ieithyddol, lledaeniad daearyddol a ffactorau maint a fabwysiadwyd i ddechrau. Byddai ymweliadau safle hefyd yn cynnwys arsylwi defnydd o'r Gymraeg o ran hunaniaeth gorfforaethol, arwyddion, dogfennau a ffurflenni, derbynfa a chyfarchiad ffôn.

Cynhaliwyd y gwaith maes gan dîm o bedwar ymchwilyr profiadol dwyieithog CBRmi rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2009, a chynhaliwyd mewnbynnu data a dadansoddiad gan ddadansoddydd ymchwil CBRmi rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2009. Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd yr holl ddeunyddiau gwaith maes a chyfathrebu yn ddwyieithog, ac yn unol â dewis iaith y rhai oedd yn cymryd rhan ym mhob achos. Gwnaed y gwaith cyfieithu ysgrifenedig gan Ganolfan Bedwyr, yr uned gwasanaethau iaith ym Mhrifysgol Bangor.

4. Canfyddiadau – holiadur cychwynnol Cam 2

Mae canfyddiadau o ran atebion i holiaduron a gwblhawyd gan 258 busnesau sector preifat yn cael eu cyflwyno, a'u cefnogi gan siartiau perthnasol lle bo'n briodol. Mae'r canfyddiadau yn cael eu trefnu yn ôl rhai themâu allweddol ar gyfer amcanion y prosiect.


4.1 Rhanbarth

Torrwyd Cymru i lawr yn dri rhanbarth a oedd yn cynnwys y siroedd canlynol:

Gogledd (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)

Canolbarth (Ceredigion, Powys)

De (Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot bont ar Ogwr,, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Bro, Sir Benfro Morgannwg a Sir Gaerfyrddin)



Ffigur 1: Dadansoddiad Rhanbarthol o ymatebion i'r arolwg

Fe wnaeth y gwaith maes cychwynnol esgor cyfran fwy o ymatebion gan fusnesau sy'n seiliedig yn neu sy'n gwasanaethu'r Gogledd (68%). Gall nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn. Yn gyntaf, darperir darllediad da o'r Gogledd gan y ffynonellau data ar gael, o gymharu â Chanolbarth a de Cymru. Hefyd, mae'n bosib fod yr amlededd uwch o frodorion Cymraeg eu hiaith yng ngogledd Cymru wedi achosi i'r arolwg atseinio'n fwy gyda nhw a'u busnes.

Roedd yna broblemau recriwtio busnesau canolbarth Cymru o'r cychwyn am fod gan y cronfeydd data a fynegwyd dan-gynrychiolaeth o Geredigion a Phowys. Felly, dylai gymryd gofal mawr wrth ddehongli'r canlyniadau meintiol ar gyfer canolbarth Cymru.

Dylid nodi bod y Gogledd yn cynnwys tua chwarter yr holl fusnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru. Am fod yr arolwg wedi dychwelyd cyfran mwy o ymatebion o'r Gogledd, nid yw'r sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan.

Sylwch ar y diffiniad 'Cymru Gyfan' sydd fel a ganlyn: Busnesau gyda nifer o leoliadau mewn gwahanol ranbarthau Cymru.


4.2 Categori defnydd Gymraeg

Categoriwyd yr ymatebwyr yn ôl eu hagwedd tuag at ddefnyddio'r iaith Gymraeg gyda'u cwsmeriaid. Defnyddiwyd categorïau eang o gadarnhaol, niwtral a negyddol, yn seiliedig ar eu hymateb i gwestiwn yn cyfeirio at lefel eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r categorïau fel a ganlyn:

- Positif: Gwasanaeth cyflawn i gwsmeriaid Gymraeg;
Gweledol, llafar ac ysgrifenedig.
- Niwtral: Dim ond ymateb i geisiadau am wasanaeth yn Gymraeg;
Gweledol yn unig - llenyddiaeth yn ddwyieithog, ar y we, arwyddion;
Rhyngbersonol / llafar yn unig.
- Negyddol: Dim darpariaeth Gymraeg o gwbl


Crynhowyd y canfyddiadau yn Ffigur 2. Mae ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr yn dangos ymagwedd gadarnhaol tuag at ddefnydd o'r iaith Gymraeg, tra bod bron hanner yr atebwyr gyda meddwl agored (niwtral) o ran defnyddio'r Gymraeg. Felly, yn nhermau cynllunio ieithyddol mae'n ymddangos bod rhywfaint o le i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg busnesau sector preifat yng Nghymru. Mae hyn yn ymddangos i fod yn fwy cadarnhaol na chanfyddiadau Beaufort Research (yn amrywio o rhwng 9% a 18%) ac yn well adlewyrchiad o ganfyddiadau ansoddol Mabis (2007).

Nodwch fod 28 o ganlyniadau ymatebwyr yn 'anhysbys' ac yn cael eu labelu fel 'Arall'.



Ffigur 2: Dadansoddiad canlyniadau categori defnydd y Gymraeg

Mae Ffigur 3 yn torri'r dadansoddiad o ddefnydd yr iaith Gymraeg i lawr yn ôl y rhanbarth mae'r busnes yn gweithredu ynddo.




Ffigur 3: Dadansoddiad o'r categorïau defnydd Cymraeg yn ôl rhanbarth

Gall y sylwadau canlynol cael eu tynnu o'r siart yma:

- O'r tri rhanbarth, gogledd Cymru sydd â'r ganran uwch o sefydliadau yn y categori cadarnhaol a'r ganran isaf yn y categori negyddol.
- Canolbarth Cymru sydd yn dangos cyfran uchaf o fusnesau negyddol. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei dymheru gan faint sampl isel iawn y rhanbarth.
- Y cwmnïau hynny sy'n disgyn i mewn i 'Cymru Gyfan' (gweler y nodyn uchod) sydd yn dangos perfformiad sylweddol gwell nag unrhyw un o'r tri rhanbarth. Unwaith eto, maint y sampl fach a'r ffaith fod y categori hwn yn debygol o gynnwys cwmnïau mawr yn bennaf dylai tymheru'r sylw hwn.

4.3 Lledaeniad daearyddol

Gofynnwyd i ymatebwyr ddatgan y lledaeniad daearyddol (neu ehangder) o'u busnes - hynny yw, lle maent yn masnachu. Y bwriad o ofyn y cwestiwn hwn oedd asesu a oedd ehangder gweithgareddau gwerthu'r busnes wedi effeithio o gwbl arnynt yn mabwysiadu ffyrdd cyfathrebu trwy'r iaith Gymraeg. Crynhowyd y canlyniadau cyffredinol o'r cwestiwn hwn yn Ffigur 4 isod.




Ffigur 4: Lledaeniad daearyddol yr ymatebwyr

Ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd 'ardal' yn opsiwn penagored, pryd y gofynnwyd i'r ymatebydd nodi sut yr oedd eu hardal yn cael ei diffinio. Ymatebion nodweddiadol oedd y Gogledd, Gwynedd ac Ynys Môn, a threfi penodol megis Caernarfon. Roedd 'Rhyngwladol' yn cynrychioli busnesau sy'n gweithredu dramor, tra bod 'Cymru Gyfan' yn cynnwys sefydliadau gyda gweithrediadau ar draws pob un o'r tri rhanbarth Cymru.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y rhan fwyaf o'r busnesau a ymatebodd i'r arolwg yn gweithredu o fewn y sir y maent yn seiliedig ynddi yn unig.

4.4 Nifer o weithwyr

Mae'r term microfusnes yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio cwmnïau lle mae'r nifer o weithwyr yn ddeg neu lai. O broffil ymatebwyr yr arolwg, a grynhoir yn Ffigur 5 isod, mae 63% o'r busnesau a ymatebodd yn ffitio'r categori hwn. Mae'r categori Menter Fach i Ganolig (SME) yn gymwys i fusnesau â 250 neu lai o weithwyr ac mae'n cynnwys microfusnesau fel is-set. Felly, mae 96% o'r holl fusnesau wnaeth ymateb yn disgyn i'r categori hwn. Mae tua 85% o'r sampl gyfan yn cynnwys busnesau gyda 0-50 o weithwyr ac yn cael eu hystyried fel 'bach' tra bod 11.6% yn disgyn i'r categori menter 'canolig.'




Ffigur 5: Dadansoddiad o nifer o weithwyr yr ymatebwyr.

Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Menter a Rheoleiddio Diwygio (BIS) yn 2007 yn dangos bod 99.9% o'r 4.7 miliwn o fusnesau yn y DU yn fusnesau bach a chanolig. Yn erbyn y canfyddiadau hyn, mae ein sampl yn gyson, ond gydag ychydig mwy o bwysiad ar gwmnïau mawr (dros 250 o weithwyr). Roedd hyn yn angenrheidiol i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o fewn y grŵp hwn er mwyn gwneud cymariaethau ystyrlon ac i ddarparu rhywfaint o astudiaethau achos ansoddol defnyddiol.

4.5 Canran y staff sydd yn siarad Cymraeg

Crynhowyd y canlyniadau o'r cwestiwn hwn yn Ffigur 6. Mae'n dangos bod gan 70% o'r 223 a ddarparodd ymateb ystyrlon ryw lefel o sgiliau dwyieithog ar gael iddynt. O blith y busnesau gyda rhai sgiliau dwyieithog, roedd gan 36% canran uchel o siaradwyr Cymraeg (81% -100%), tra bod 28% gyda chanran isel (1% -20%).


Efallai ei fod yn bwysig nodi bod dim ond 22% allan o'r 70% o fusnesau gyda rhywfaint o gynhwysedd sgiliau dwyieithog sydd yn cael eu categorïddio fel cymryd agwedd bositif yn ymwneud â'r iaith gyda chwsmeriaid (gweler adran 4.2 uchod).



Ffigur 6: Dadansoddiad o ganran y staff sy'n siarad Cymraeg

Mae ffigur 7 yn dangos sut mae maint y sefydliad yn effeithio ar y lefelau o Gymraeg a siaredir gan staff. Mae'r categorïau micro a busnesau bach a chanolig gyda bras dosbarthiad tebyg o'r Gymraeg - canran sylweddol gyda dim/ychydig iawn o siaradwyr Cymraeg, a tua


chwarter gyda chanran uchel iawn o staff sy'n siarad Cymraeg. Mewn cyferbyniad, adroddwyd y categori isaf ar gyfer canran y staff sy'n siarad Cymraeg gan bob un o'r sefydliadau mawr.



Ffigur 7: Dadansoddiad o staff sy'n siarad Cymraeg yn ôl maint y cwmni

4.6 Sectorau Diwydiant

Gofynnwyd i'r ymatebwyr grynhai eu gweithgarwch busnes yn ôl diffiniadau sector y Dosbarthiad Safonol Diwydiannol o Weithgareddau Economaidd (SIC). Crynhowyd canlyniadau'r cwestiwn hwn yn Ffigwr 8 isod. Roedd yr ymatebwyr yn cael y dewis o nodi 'Arall,' ac yn wir dychwelodd hyn y nifer fwyaf o ymatebion. Mae hyn yn dangos naill ai diffyg eglurder, neu amwysedd mewn perthynas â dosbarthiadau sector.



Ffigur 8: Dadansoddiad o fusnesau yn ôl sector

O'r ymatebwyr a oedd yn gallu dosbarthu eu busnes, y pedwar categori sector a ddarparodd y nifer fwyaf o ymatebion oedd:


- Hamdden a Thwristiaeth;
- Manwerthu gwasanaethau;
- Ariannol, Cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill;
- Manwerthu nwyddau.

Amlinellwyd y gwahaniaethau rhwng sectorau o ran eu defnydd o'r Gymraeg yn Ffigur 9. Mae'r sectorau wedi eu rhestru yn ôl eu hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o'r Gymraeg. Gall y sylwadau canlynol cael eu tynnu o'r siart:

- Y sectorau nid-er-elw (NFP) a'r cyfryngau sydd â'r ganran uchaf o ddefnydd cadarnhaol Cymraeg (50%), gyda'r sector NFP heb unrhyw ymatebwyr yn disgyn i'r categori defnydd negyddol.
- Mae'r diwydiant cyfryngau yn dangos proffil tebyg i'r sector NFP, gan adlewyrchu canfyddiadau'r astudiaethau blaenorol.

- Sectorau megis gwasanaethau proffesiynol ariannol, cyfreithiol ac eraill sydd yn dangos polareiddio cryf rhwng defnydd cadarnhaol a negyddol y Gymraeg.
- Yr NFP a gwasanaethau cyhoeddus oedd yr unig ddau sector gyda dim ymatebwyr yn y categori defnydd Gymraeg negyddol.

Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad llawn o'r holl ffigurau. Wrth ddadansoddi a graddio sectorau sy'n cynnig gwahanol raddau o wasanaeth rhagweithiol yn y Gymraeg - o wasanaeth gweledol yn unig at wasanaeth cyflawn (gan anwybyddu rhai sydd ddim ond yn ymateb i geisiadau am wasanaeth yn Gymraeg) - cymerodd y sector NFP y safle uchaf gyda 75% o fusnesau yn cynnig rhyw fath o ddarpariaeth Gymraeg, wedi eu dilyn gan hamdden a thwristiaeth yn 66%, adwerthu gwasanaethau gyda 63%, gwasanaethau cyhoeddus gyda 60%, ariannol a chyfreithiol gyda 57%, a'r cyfryngau gyda 50%. Oherwydd y pegynnu rhwng cadarnhaol a dim ond yn cynnig gwasanaeth ymatebol, mae sgôr y cyfryngau yn gymharol isel, sy'n creu cymariaethau diddorol gyda chanfyddiadau'r arolwg cynharach lle mae'r sector cyfryngau wedi adrodd yr angen mwyaf ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg.⁴



Ffigur 9: Dadansoddiad o'r categori defnydd y Gymraeg gan sectorau

⁴ Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru – Sgiliau Iaith Gymraeg mewn Saith Sector, Ymchwil Beaufort a Menter a Busnes, Mawrth 2005.
dwyeithog wrth ddelio â busnesau sector preifat. Unwaith eto, mae hyn yn deillio o safbwynt sy'n cael ei gadarnhau gan rai o'r astudiaethau achos uchod, fod busnesau sector preifat yn ymddangos yn ansicr ac yn aneglur sut i ystyried y mater hwn, o ran sefydlu a nodi anghenion ieithyddol cwsmeriaid a sut orau i ddefnyddio cynhwysedd eu sgiliau dwyeithog presennol, os ydynt yn bodoli.

- iv. **Targedu adnoddau yn briodol.** Gyda lleoliad daearyddol (a dolen dybiedig at ddiffyg galw gan gwsmeriaid) mor amlwg ymysg ymatebwyr y categori defnydd negyddol, yn y tymor byr gallai fod yn fwy cynhyrchol targedu busnesau yn y sector preifat mewn ardaloedd gyda chyfraddau uwch o siaradwyr Cymraeg. Gallai pentrefi, trefi ac ardaloedd daearyddol penodol cael eu targedu fel bod mabwysiadu'r ymagwedd hon yn achosi i nifer raddol gynyddol o fusnesau'r sector preifat creu màs neu fomentwm hunangyflawnol. Yn wir, gallai'r iaith cael ei ddefnyddio fel sbardun economaidd i greu mwy o swyddi (a chynnal y rhai sydd yn bodoli yn barod) yn ogystal â chyfoeth drwy hyrwyddo prynu'n lleol a, thrwy hynny, leihau ôl troed carbon a helpu cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol. Mae cael ymagwedd targedu fwy rhesymegol yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn gwneud synnwyr ymarferol, a gallai helpu liniaru elfen o orfodaeth neu ofyniad afresymol (gyda mesur yr iaith Gymraeg) ymhlith busnesau a mentrau penodol. Atgyfnerthir hyn gan y cyfansoddiad demograffig o ymatebwyr i'r arolwg holiadur Cam 1 a'r canfyddiadau dilynol. Er hynny, gyda'r mudo cynyddol o siaradwyr Cymraeg ifanc wledig i ganolfannau trefol De-ddwyrain Gymru, a thwf addysg Gymraeg a dwyeithog yn cynhyrchu nifer cynyddol o bobl ddwyieithog, mae'r cysyniad o 'fro Gymraeg' yn dod yn hen ffasiwn. Fodd bynnag, mae siroedd fel Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin gyda dwyseddau uwch o siaradwyr Cymraeg lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio bob dydd. Fel y cyfryw, gall wneud mwy o synnwyr economaidd yn y lle cyntaf i dargedu'r ardaloedd hyn fel y camau cyntaf ar gyfer cyflwyno safonau iaith. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng Nghynlluniau Iaith Gymraeg y sector cyhoeddus (yn enwedig Awdurdodau Lleol) a thrwy ymgyrchoedd eraill fel 'Cymraeg yn Gyntaf' gan Fentrau Iaith Gymraeg.

- v. **Creu cymhellion trwy broses gaffael y sector cyhoeddus.** Dylai prosesau caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru greu cymhellion ychwanegol ar gyfer y sectorau preifat a Nid-er-elw (NFP) i dderbyn a datblygu darpariaeth gwasanaeth dwyieithog er na ellir cyflawni hyn dros nos. Felly, mae angen gwneud y neges yn glir i alluogi darpar ddarparwyr i gynllunio ymlaen llaw gyda'r ddwy iaith mewn golwg. Dylai canllawiau manwl gael eu darparu - ar y cyd â'r Uned Iaith Gymraeg - i sicrhau cysondeb, eglurder a chydymffurfio. Mae'r argymhelliad hwn yn deillio o'r canfyddiad bod sectorau'r cyfryngau a Nid-er-elw (NFP) yn arwain y ffordd o ran gwasanaeth dwyieithog. Deuwn i'r casgliad mai un rheswm am hyn yw bod y cyfryngau a sefydliadau Nid-er-elw (NFP) yn aml yn darparu gwasanaethau ar ran neu mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru, boed yn S4C neu Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd, lle bo'r Cynllun Iaith Gymraeg neu ofynion deddfwriaethol yn gosod dyletswyddau ar gyfer addysg ddwyieithog neu ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg.
- vi. **Tynnu sylw at ddwyieithrwydd fel rhan o ofal cwsmer.** Oherwydd yr angen i godi lefelau o ddealltwriaeth am ddwyieithrwydd yn y sector preifat, ddylai gwasanaeth ariannu'r Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y sector preifat a busnesau cychwynnol tynnu sylw priodol at y defnydd gweithredol o arferion da ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog fel rhan o arferion gofal cwsmeriaid yng Nghymru. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, dylai'r rhain ganolbwyntio ar agweddau o ddarpariaeth ddwyieithog sydd ag ychydig neu ddim baich ariannol, ac amlygu lle mae cefnogaeth ymarferol ar gael - megis yr Awdurdodau Lleol a Mentrau Iaith Gymraeg.
- vii. **Cysylltu cymorth gyda chanllawiau ar yr iaith Gymraeg.** Yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg, ddylai'r adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru hynny sydd yn dyfarnu grantiau a chyllid cyhoeddus sicrhau o leiaf byddai angen i ymgeiswyr amlinellu pa ddarpariaeth gwasanaeth dwyieithog a gynigir yn unol â'r cymorth a geisir amdano. Dylid gofyn am ganllawiau mewnol ar y cyd â'r Uned Iaith Gymraeg i sicrhau parhad y dull gweithredu a'r canlyniadau. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at feysydd cyfrifoldeb megis datblygu gwledig, economi, hamdden, twristiaeth, a.y.b, lle gallai'r

argymhelliad hwn gael effaith uniongyrchol a pherthnasol. Gyda dyfodiad y mesur iaith Gymraeg, mae'n bwysig bod arweiniad yn cael ei gymryd yn ymarferol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn un agwedd lle y gall y sector cyhoeddus a phreifat weithio ar y cyd er budd aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

viii. **Normaleiddio hyfforddiant yr iaith Gymraeg ar gyfer cyflogwyr.** Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod llawer o fusnesau yn y sector preifat yn amwys am y Gymraeg neu sgiliau dwyieithog - adlewyrchir hyn gan ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o gynhwysedd iaith y gweithwyr (neu yn wir y cwsmeriaid eu hunain). Bydd y genhedlaeth newydd o bobl ifanc o addysg uwchradd â sgiliau dwyieithog gwell na'u rhagflaenwyr, ag y dylai cymryd camau i wneud y gorau a defnyddio hyn o ran cynllunio a darparu gwasanaethau. Un ffordd o gyflawni hyn yw amlygu a normaleiddio sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer cyflogwyr, er enghraifft, drwy ganghennau o'r Cynghorau Sgiliau Sector sydd yn gweithredu yng Nghymru. Yn y pen draw, mae gan y cynghorau hyn rôl allweddol yn cynllunio a chyflwyno hyfforddiant sgiliau i sectorau gwahanol yng Nghymru - sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg fel sgil. Yn yr un modd, ddylai cwmnïau gyrfaodedd, drwy eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol eu hunain, gwneud unigolion yn ymwybodol o'r angen cynyddol am sgiliau dwyieithog yn y gweithle - sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Efallai y bydd yn ofynnol i rai cynghorau o'r fath baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Os bydd cynlluniau yn cael eu disodli gan set o safonau, dylai'r gofyniad hwn gael ei ymgorffori o fewn un neu fwy o'r safonau hyn.

ix. **Dyfeisio strategaethau sy'n cymryd arweiniad gan sectorau llwyddiannus megis twristiaeth a hamdden.** Mae'r arolwg hwn wedi tynnu sylw at y ffaith fod twristiaeth yn chwarae rhan flaenllaw o ran mabwysiadu ymagweddau ac arferion da tuag at y Gymraeg. Mae angen creu pecynnau galwedigaethol ag hyfforddiant sectoraidd fel y gwelir yn 'Naws am Le' a 'Croeso Cynnes Cymreig' (yn deillio o'r strategaeth twristiaeth ddiwylliannol), a'u dosbarthu, defnyddio a monitro mewn sectorau eraill. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhaglenni datblygu economaidd a chymdeithasol, a rhaglenni adfywio cymunedol yn yr hinsawdd ariannol bresennol lle

mae iaith yn gysylltiedig â chefnogi'r economi leol ac yn 'Cymru'n Ennill' - y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol gyda'i bwyslais ar Ddatblygiad Cynaliadwy (ac iaith yn agwedd o hyn). Ar gyfer llawer o aelodau dwyieithog o'r cyhoedd, mae mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg yn cyd-fynd yn naturiol â chefnogi cyflogwyr a gweithwyr lleol yn hytrach na darparwyr cenedlaethol, rhyngwladol neu fyd-eang - sydd yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Unwaith eto, mae gan Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru rhan flaenllaw i'w chwarae o ran creu ymwybyddiaeth a chefnogaeth.

- x. **Darparu pecyn cymorth sy'n galluogi busnesau i nodi cyfansoddiad ieithyddol eu sylfaen cwsmeriaid.** Un o ganfyddiadau'r arolwg yw bod llawer o fusnesau yn ansicr neu'n anymwybodol o broffil iaith eu cwsmeriaid. Gellid dadlau bod hyn yn arwain at wneud tybiaethau anghywir neu, o leiaf, tybiaethau anwybodus neu rhai sydd heb eu profi ynglŷn ag anghenion neu hoffterau ieithyddol cwsmeriaid. Ystyriwyd hyn fel arfer busnes gwael pe bai'n cael ei gymhwyso, er enghraifft, ar gyfer anabledau neu leiafrifoedd ethnig. Er mwyn cynorthwyo busnesau i ymateb i anghenion ieithyddol cwsmeriaid, dylid paratoi pecyn cymorth rheoli generig i alluogi busnesau sector preifat i nodi a sefydlu proffil iaith bob cwsmer. Byddai hyn yn gweithredu fel rhagflaenydd i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer datblygu darpariaeth ddwyieithog yn y tymor byr/canolog ymhlith busnesau sy'n dymuno datblygu eu cynhwysedd o ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Gallai'r gwaith cychwynnol hwn cael ei wneud gan olynydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg ar y cyd â chyrrff cynrychioliadol y sector preifat megis CBI Cymru/Wales, Ffederasiwn Busnesau Bach a chyrrff cynrychioliadol eraill.

Ymhellach, mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn ailadrodd yr argymhellion a wnaed gan Beaufort Research a Menter a Busnes (2005) sef:

'Yn gyffredinol, ceir lefel isel o ymwybyddiaeth ymhlith y sector preifat yng Nghymru ynghylch sut y gall yr iaith Gymraeg cael ei ddefnyddio er budd eu busnes. Felly, mae mater dyrchafiad neu gyfathrebu yn bodoli i bob golwg, a fyddai'r broses o fusnesau yn defnyddio'r iaith Gymraeg er eu budd masnachol yn cyflymu pe gellid delio efo hyn yn effeithiol.'

'Mae angen i gefnogaeth iaith Gymraeg fod yn elfen integredig o fentrau polisi ehangach a chefnogaeth prif ffrwd sydd wedi'i raglennu yn yr agendâu sgiliau a datblygiad economaidd.'

7. Diwedd glo

Mae'n amlwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud bod y defnydd o'r iaith Gymraeg yn cynnwys nifer o nodweddion ar draws gwmnïau yn y sector preifat yng Nghymru, ond dwy thema sydd yn fwyaf amlwg:

- Yn gyntaf, mae'r cwestiwn o fudd-dal economaidd (gwirioneddol neu dybiedig) yn cael effaith materol mawr ar ddefnydd y Gymraeg ymysg busnesau sector preifat. Fel y gellid disgwyl, mae cyflwr y farchnad ar gyfer y sector preifat yn golygu na fydd yn cyflenwi oni bai fod yna galw, a bydd yn defnyddio'r strategaeth hon yn ddiostur yn y cyswllt hwn. Felly, lle nad oes angen marchnad ar gyfer yr iaith Gymraeg, ni fydd yn ei defnyddio. I lawer ar draws Gymru, mae yna o leiaf tybiaeth neu ganfyddiad nad yw'r rheidrwydd hwn yn bodoli o ddifrif. Beth felly mae angen ei gynhyrchu yw ymchwil mesuradwy empirig ac astudiaethau achos economaidd sy'n gosod y ddadl ar sylfaen gadarn.
- Yn ail, hyd yn oed lle ceir mantais economaidd neu farchnad ar gyfer cwmni sector preifat i gynnig darpariaeth gwasanaeth dwyieithog gall hyn, yn y mwyafrif o achosion, dod yn ail gwael i'w brif farchnad 'iaith ddi-gymraeg;' hynny yw, yn nhermau trosiant ariannol gallai'r enillion ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg fod yn fach iawn mewn perthynas â maint cyffredinol y busnes. O ganlyniad, bydd y gyrrwr ar gyfer defnyddio'r iaith yn fwy tebygol o fod yn gyfuniad o ddyngarwch ac angen 'cyfreithiol' (e.e. tendro) yn hytrach nag ariannol neu werthiant, er y bydd un o nodweddion allweddol y dwyieithrwydd yn gysylltiedig â brandio a marchnata. Os felly, byddai ymchwil empeiraidd yn mynd peth ffordd at ddarparu atebion; yna yn y cyd-destun o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog sydd wedi'i ymgorffori yn 'iaith Pawb,' ddylai'r pwyslais a chefnogaeth cael ei ailddiffinio tuag at y nod o werthoedd diwylliannol ac ieithyddol a rennir, sydd wedi eu hymgorffori o fewn y syniad ymarferol a chais y genedl ddwyieithog.

Gellid dadlau ar y naill law nad yw'r achos ar gyfer yr iaith Gymraeg ymhlith busnesau sector preifat yn arbennig o gryf, a'i fod yn gwanhau yn sylweddol tuag at ddwyrain Cymru. Fodd

bynag, mae'r cynnydd o bobl ddwyieithog ifanc sydd yn dod i'r amlwg ar draws rhannau mwy Seisniged o Gymru yn tynnu sylw at y ffaith fod demograffeg ieithyddol Cymru yn newid. Ar yr un pryd, nid yw dealltwriaeth y sector preifat o'r manteision potensial economaidd a marchnata (lle maent yn bodoli) yn arbennig o dda - hyd yn oed lle mae'n amlwg fod yna fanteision i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae'n amlwg hefyd nad yw brandio dwyieithog cwmnïau yn aml yn cyd-daro â'r defnydd neu'r gallu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg - yn wir, yn ddieithriad nid yw hyn yn digwydd. Beth mae hyn yn dangos yw ei fod yn addas i rai, os nad llawer, o fusnesau i gael cysylltiad agos â Chymru a'r iaith Gymraeg, ond nid yw'n angenrheidiol iddynt ymarfer yr affinedd hwn. Dyma le mae'r elfen o ddyngarwch yn cyd-fynd â'r defnydd gorau a brandio'r iaith; mae llawer o'r busnesau sy'n brandio ac yn ymarfer dwyieithrwydd yn angerddol yn datgan teimlad o ddyletswydd tuag at yr iaith (efallai o flaen enillion economaidd) a dyma beth sydd yn gosod y cwmnïau hyn ar wahân fel cefnogwyr iaith. Fodd bynnag, gyda'r niferoedd cynyddol o bobl ddwyieithog, bydd awydd cynyddol i ddefnyddio'r iaith, o safbwynt gweithwyr a chwsmeriaid, ac yn hynny o beth gall rhai rhannau o'r sector preifat fod ar ei hôl o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ieithyddol. Dyna pam y mae'r adroddiad hwn yn argymhell canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ieithyddol trwy gyfrwng y math o hyfforddiant sydd wedi'i brif ffrydio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, diolch yn rhannol i gynlluniau statudol yr iaith Gymraeg. Mae newid yn yr agwedd ddiwylliannol hon wedi digwydd i raddau helaeth iawn yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ers 1995/6, gyda'r mabwysiadu o gynlluniau statudol yr iaith Gymraeg, ac mae wedi cyrraedd pwynt yn awr lle na fyddai unrhyw gorff cyhoeddus yn gwadu hawl aelod o'r cyhoedd i gael gwasanaethau yn Gymraeg yn fwriadol - nid mewn egwyddor nac yn ymarferol. Yn wir, gellir dysgu llawer o brofiad y sector cyhoeddus yng Nghymru dros y 10-15 mlynedd ddiwethaf.

Ar hyn o bryd, efallai fod yr angen am yr iaith Gymraeg yn eithaf prin mewn busnes; mae'r rhwymedigaethau 'cyfreithiol' yn helpu ond nid ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau presennol ynglŷn â defnydd. Lle nad yw'r mwyafrif o 'galw' yn benodol i iaith, yna bydd yn anodd dod o hyd i sail cwsmeriaid digonol i gyfiawnhau'r buddsoddiad - oherwydd, ar yr un llaw, mae pobl a chwmnïau yn prynu cynnyrch a gwasanaethau, nid yr iaith; fodd bynnag, oherwydd preifateiddio, mae gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu fwyfwy gan y sector preifat, lle mae cyfathrebu - siarad, gwrando a deall - yn

ganolog i'r profiad cwsmeriaid. Crybwyllwyd y sector gofal cymdeithasol yn barod, gan nodi fel gyrywyr anghenion ieithyddol plant oed ysgol feithrin, yr henoed a phobl fregus yn benodol. Mae'r sector Nid-er-elw (NFP) hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i fabwysiadu arferion da ieithyddol - mae'r cyrff hyn yn aml yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran y sector cyhoeddus. Mae hyfforddiant yn faes arall lle, oherwydd gofynion y sector cyhoeddus mewn addysg neu iechyd, mae galw cynyddol am ddarpariaeth a chymwysterau yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Hyd yn oed mewn cyd-destunau cymdeithasol, gellir gweld bod cwsmeriaid yn mynnu'r Gymraeg - er enghraifft, o ran y peiriant chwilio a chyfryngau cymdeithasol. Mae'n amlwg o'r ymchwil y gellid gwneud mwy, nid yn unig i ddiogelu'r iaith ond i gefnogi datblygiad busnes gyda'r iaith; bydd llwyfannau TG newydd yn darparu cyfleoedd masnachol newydd ar gyfer gwasanaethau dwyieithog.

Ar yr un pryd, efallai ei fod yn ddibwrpas gorfodi'r mater ymhlith busnesau yn y sector preifat, os bydd yn gosod costau sylweddol a allai eu rhoi o dan anfantais economaidd. Mae angen mwy o waith i ddeall yn llawn y costau a manteision masnachu ddwyieithog, a dylai'r ddolen i gymhellion fod yn fwy tryloyw. Mae tua 610,000 o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru heddiw, ac mae'r rhain yn gorfod cystadlu â marchnad o 60,000,000 unigolion sy'n siarad Saesneg yn bennaf yn y DU (er gwaethaf y farchnad ryngwladol) a dyma'r gwir economaidd ar gyfer y mwyafrif helaeth o fusnesau yng Nghymru.

Fodd bynnag, i raddau helaeth mae'n rhaid cydnabod fod diffyg y defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau sector preifat yn deillio o ddau brif ffactor, sef: agweddau busnes sydd wedi aros yn ddigyfnewid, ac efallai heb ei herio, oherwydd nad oes natur orfodol i fabwysiadu dwyieithrwydd, a diffyg dealltwriaeth ynghylch natur darpariaeth ddwyieithog ac o'r manteision a'r gwerthoedd cyfunol sydd yn bosib. Mae llawer o'r argymhellion uchod yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil flaenorol, ond yn hanfodol maent yn atgyfnerthu'r ffaith fod unrhyw ymyriadau wedi eu gwneud ers i'r arolygon hyn cael eu cynnal heb wneud llawer o newid amlwg mewn agwedd, o leiaf o fewn y sampl fach yma, gan fod yr agweddau yma dal yn eithaf amlwg yn ymateb y sector preifat i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Gan ystyried y mesur iaith Gymraeg diweddar, a'r rhwymedigaeth mae'n debygol o roi ar y sector breifat i fabwysiadu safonau iaith, down i'r casgliad y dylai wneud ymchwil

ychwanegol i sefydlu pa fath o gynllunio, os oes rhywfaint, sydd wedi cael ei wneud i ddefnyddio (a marchnata) defnydd yr iaith Gymraeg ymhlith busnesau sydd â rhywfaint o weithwyr dwyieithog, a pha gamau a gymerwyd gan fusnesau i nodi a sefydlu dewisiadau ieithyddol cwsmeriaid. Mae'r ddau faes canolog yma yn cymryd blaenoriaeth o ran sefydlu'r anghenion masnachol a manteision o fabwysiadu arferion dwyieithog, ac maent yn holl bwysig wrth gyfeirio at agweddau ac arferion traddodiadol sy'n bodoli ymhlith busnesau yn y sector preifat yng Nghymru.

Er enghraifft, yn y gwasanaethau manwerthu, gall cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg cynnyrch mwy o ffyddlondeb cwsmeriaid - gwsmeriaid sydd yn gynyddol yn chwilio am ddarparwr gwasanaethau cynaliadwy, amgylcheddol a moesegol. Bydd darparu'r henoed gyda gwasanaeth ystyrlon yn y Gymraeg o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei weld fel cydran o ansawdd da i ofal claf. Yn y sector hamdden a thwristiaeth, bydd atyniadau sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn amlygu pwynt gwerthu unigryw'r iaith a'r diwylliant i ymwelwyr o'r DU a thramor.

Os bydd yr argymhelliad i ymgymryd â mwy o ymchwil empirig o'r budd masnachol ac economaidd sydd i'w gael drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei ddilyn, pa effaith gadarnhaol y byddai ymchwil o'r fath yn ei gael ar y rhai sydd yn amheus o unrhyw fanteision? Felly, cysylltiedig â hyn fyddai gofyniad am gefnogaeth ymarferol ar gyfer y sector preifat o ran darpariaeth ddwyieithog, ac yn arbennig felly ar adegau o galedi economaidd uwch.

Mae'r adroddiad hwn yn cloi drwy nodi bod strategaethau cynllunio ar yr iaith Gymraeg a chynlluniau gweithredu yng Nghymru yn cael eu dilyn yn agos, ac yn cael eu rhagflaenu fel arfer da ymhlith llawer o'r rhanbarthau a gwledydd yng ngorllewin Ewrop a gogledd America sydd yr un mor bryderus o ran adfywiad, caffaeliad a goroesiad iaith leiafrifol. Mae hyn yn haeddiannol o ran addysg ac, yn fwy diweddar, o ran y cynnydd yn defnyddio'r Gymraeg o fewn y sector cyhoeddus. O safbwynt iaith, yr her barhaus yw sut i ailadrodd ac ennyn datblygiad cydsyniol tebyg o fewn y sector preifat.

8. Cyfeiriadau

Arolygon barn y cyhoedd a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

NOP SOCIAL AND POLITICAL (1995): Barn y Cyhoedd tuag at yr Iaith Gymraeg – Adroddiad Ymchwil gan NOP Social and Political ar gyfer y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (*Public Attitudes to the Welsh Language – A Research Report Prepared by NOP Social and Political for the Central Office of Information and the Welsh Language Board*).

Dafis, R; Owens, M & Roberts, D.B. (Mawrth 2010) "Dylanwad Cynlluniau Iaith Gymraeg - Adolygiad ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg"

BEAUFORT RESEARCH (Mawrth 2007) Arolwg Omnibws o Fusnesau Cymreig (Cwmnibus): y defnydd o'r Gymraeg gan fentrau bach a chanolig. (*Omnibus Survey of Welsh Businesses (Cwmnibus): the use of Welsh by small and medium sized enterprises*).

BEAUFORT RESEARCH, A MENTER A BUSNES (Mawrth 2005) Adroddiad i'r Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. (*A report to the Future Skills Wales Partnership*).

Mabis. (2007) Grwpiau Ffocws i ystyried y Defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat. (*Focus Groups to consider the Use of Welsh in the Private Sector*).

EAVES, S. (2007) 'CYFRANIAD HYFFORDDIANT YMWHYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG AT GYNLLUNIO YMWHYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG AT GYNLLUNIO IEITHYDDOL A'R BROSES O GREU CYMRU NEWYDD', CONTEMPORARY WALES, 20, 82 – 105.

IAITH PAWB (Chwefror 2003) Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog. (*A National Action Plan for a Bilingual Wales*).

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) MEMORANDWM ODDI WRTH Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU - Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iaith Gymraeg) Gorchymyn 2009 - Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ar yr Iaith Gymraeg. (*The National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Welsh Language) Order 2009 - Draft Legislative Competence Order on the Welsh Language*).

9. *Atodiad A: Holiadur cychwynnol Cam 2*

Sylwer bod yr arolwg hwn wedi ei roi ar lein hefyd, ac roedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i fusnesau. Roedd rhai busnesau yn gwrthod cael eu henwi, er bod sicrwydd o anhysbysrwydd wedi ei roi ynghylch y canlyniadau ar gyfer y cyfnod hwn. Cafodd gymhellant ei gynnig i bob busnes roedd yn rhoi eu manylion cyswllt.

Cysylltwyd rhai busnesau dros y ffôn tua diwedd y cyfnod cyntaf, gyda'r bwriad o gynyddu cynrychiolaeth mewn meysydd allweddol lle bod y tîm yn teimlo fod y niferoedd yn isel.

Rhan 1: Cefndir (1 – 6)

1. Enw'r busnes

2. Lleoliad daearyddol y busnes (ticiwch un) ☐ Sir (nodwch) ☐ Ardal (e.e. Gogledd Cymru) ☐ Cymru Gyfan
☐ Prydain ☐ Rhyngwladol ☐ Arall

3. Nodwch faint o staff sydd yn gweithio yn eich busnes (yng Nghymru)? Nifer: %: neu Dim: Ddim yn gwybod:

4. Nodwch nifer a % staff (yng Nghymru) sy'n siarad Cymraeg yn rhugl? Nifer: %: neu Dim: Ddim yn gwybod:

5. Nodwch pa sector (megis twristiaeth, hamdden, manwerthu) sy'n diffinio'ch busnes chi orau?

6. Oes gan eich busnes ... Ticiwch fel sy'n briodol.

☐ Polisi iaith Gymraeg ☐ Polisi Amrywiaeth ☐ Polisi Cyfle Cyfartal/ Cydraddoldeb
☐ Polisi Amgylchedd ☐ Polisi Gofal Cwsmer ☐ Polisi Cwynion

Rhan 2: Defnydd cyffredinol o'r Gymraeg gan eich busnes (7 – 9)

7. Nodwch % staff sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith trafod busnes gyda chwsmeriaid neu ddefnyddwyr? Mae hyn yn golygu cynnal y gwasanaeth yn Gymraeg. Nifer: %: neu Dim: Ddim yn gwybod:

8. Nodwch % cwsmeriaid neu ddefnyddwyr sy'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?

9. Pa un (neu fwy) o'r opsiynau isod sy'n cynrychioli orau graddfa darpariaeth gwasanaeth Cymraeg eich busnes i'ch cwsmeriaid? Ticiwch pob ateb priodol.

☐ 1. Dim darpariaeth Gymraeg o gwbl – ewch i gwestiwn 10.
☐ 2. Ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg yn unig
☐ 3. Gweledol yn unig: (arwyddion, taflenni, marchnata, brandio)
☐ 4. Rhyngpersonol/ llafar yn unig: (wyneb yn wyneb, mewn derbynfa neu gownter, dros y ffon, uchelseinydd)
☐ 5. Gweledol, Llafar ac ysgrifenedig: Cynnal y busnes gyda'r cwsmer trwy'r Gymraeg
☐ 6. Darpariaeth gwasanaeth gyflawn Gymraeg a'r iaith yn gynwysedig o fewn prosesau recriwtio a hyfforddi staff, cyfathrebu mewnol a datblygu polisïau
☐ 7. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)

Rhan 3: I'w gwblhau yn unig gan fusnesau sydd DDIM yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth (10 – 12)

10. Beth yw'r ffactorau sy'n golygu **NAD** yw eich cwmni yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth? Ticiwch pob un sy'n briodol.

☐ 1. Lleoliad daearyddol	☐ 10. Baich ychwanegol ar amser prin
☐ 2. Anfanteision Brandio/ Marchnata Dwyieithog	☐ 11. Ddim yn gweld mantais economaidd/ masnachol
☐ 3. Diffyg cefnogaeth staff	☐ 12. Diffyg ymwybyddiaeth o broffil ieithyddol cwsmeriaid
☐ 4. Prinder staff hyderus dwyieithog	☐ 13. Natur arbenigol/ technegol ein maes gwaith
☐ 5. Diffyg galw ymhlith cwsmeriaid	☐ 14. Nid yw'r Gymraeg yn un o'n sgiliau
☐ 6. Ofni gelyniaethu cwsmeriaid	☐ 15. Diffyg darpariaeth cyrsiau Cymraeg i'r gweithle
☐ 7. Cyfleu delwedd anghywir	☐ 16. Diffyg dealltwriaeth o beth yw 'gwasanaeth Cymraeg addas'
☐ 8. Dymuniad i beidio uniaethu'n ormodol â Chymru	☐ 17. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 9. Rhy gostus	

11. Beth fyddai'r cymhellion mwyaf i'ch busnesi chi ystyried darparu gwasanaeth Cymraeg?

☐ 1. Cyngor/arweiniad ymarferol i reolwyr gan gyrff hybu/ cyngori busnes	☐ 6. Grantiau i gynyddu gwasanaeth dwyieithog
☐ 2. Mynediad am ddim i hyfforddiant Cymraeg i'r gweithle	☐ 7. Gwybodaeth am fanteision economaidd dwyieithrwydd
☐ 3. Gwybodaeth am ddarparwyr hyfforddiant Cymraeg i'r gweithle lleol i ni	☐ 8. Ymgrych prynu'n lleol/ o fewn Cymru
☐ 4. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ieithyddol	☐ 9. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 5. Tystiolaeth o alw ymhlith cwsmeriaid	

12. Wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth Cymraeg dros y 5 mlynedd nesaf fydd eich busnes chi yn debygol o....? (Ticiwch un sy'n briodol)

☐ Barhau i beidio darparu gwasanaeth Cymraeg

☐ Barhau i ddarparu rhywfaint o wasanaeth Cymraeg

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn raddol

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn fawr

Rhan 4: I'w gwblhau yn unig gan fusnesau sydd YN defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth (13 - 14)

13. Beth yw'r ffactorau sy'n golygu **FOD** eich busnes yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth? Ticiwch pob un sy'n briodol.

☐ 1. Lleoliad daearyddol	☐ 10. Ddim yn faich ychwanegol ar amser prin
☐ 2. Manteision Brandio/ Marchnata Dwyieithog	☐ 11. Mantaïs economaidd/ masnachol
☐ 3. Cefnogaeth staff	☐ 12. Ymwybyddiaeth uchel o broffil ieithyddol cwsmeriaid
☐ 4. Digonedd o staff hyderus dwyieithog	☐ 13. Natur arbenigol/ technegol ein maes gwaith yn cymhathu â'r Gymraeg
☐ 5. Galw ymhlith cwsmeriaid	☐ 14. Mae'r Gymraeg yn sgil sydd gennym ni.
☐ 6. Ennill cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriaid	☐ 15. Darpariaeth ddigonol o gyrsiau Cymraeg i'r gweithle
☐ 7. Cyfleu delwedd gywir	☐ 16. Dealltwriaeth o beth yw 'gwasanaeth Cymraeg addas'
☐ 8. Dymuniad i uniaethu â Chymru	☐ 17. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 9. Yn gost effeithiol	

14. Wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth Cymraeg dros y 5 mlynedd nesaf fydd eich busnes chi yn debygol o....? (Ticiwch un sy'n briodol)

☐ Leihau'r gwasanaeth Cymraeg

☐ Barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar y lefel bresennol

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn raddol

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn fawr

☐ Amherthnasol - Gwasanaeth cyflawn Gymraeg eisoes ar gael

10. Atodiad B: Holiadur manwl/cyfweliadau Cam 3

Cwblhawyd yr holiadur hwn naill ai drwy ymweliad wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn gyda chyswllt lefel strategol perthnasol o fewn pob busnes, ar gyfer y 60 astudiaethau achos manwl. Roedd atebion o holiadur cychwynnol Cam 2 uchod ar gael i'r ymchwilwyr, lle bo'r rhain wedi eu cwblhau.



Nodyn i'r ymholwr: Byddwch yn cyfweid 5 busnes sydd yn gwneud defnydd o'r Gymraeg ar hyn o bryd (sef cwblhau Rhannau 1, 2, a 4 o'r holiadur yn unig), 5 busnes allai fod yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol (trwy gwblhau pob Rhan o'r holiadur) a 5 busnes sydd yn gwneud dim defnydd o'r Gymraeg ar hyn o bryd nac yn debygol o wneud defnydd yn y dyfodol (trwy gwblhau Rhannau 1, 2, a 3 o'r holiadur yn unig). Bydd angen recordio pob cyfweiliad – gyda sêl bendith y busnes – a llunio cofnod o'r cyfweiliad yn ysgrifenedig trwy gwblhau pob Rhan berthnasol o'r holiadur terfynol. Byddwch angen sicrhau fod atebion gafwyd i Rhan 1 y gwaith maes hefyd wedi eu cynnwys yn yr holiadur terfynol a dylid cyfeirio at yr atebion hyn wrth gynnal cyfweiliad er mwyn procio'r meddwl a sbarduno trafodaeth. Cyn cychwyn y cyfweiliad mae angen copi caled o'r holiadur gwreiddiol a gwblhawyd gan y busnes unigol. Bydd angen tynnu ar y data yma wrth holi cwestiwn a dilyn trywyddau cyffredinol a phenodol. Bydd angen trafod pob cwestiwn o'r Rhannau perthnasol gan gynnwys cwestiynau a atebwyd yn flaenorol yn yr holiadur ar lein neu dros y ffôn.

Rhan 1: Cefndir (1 – 10) Pob Busnes i'w gwblhau

1. Enw'r busnes

2. Lleoliad daearyddol y busnes (ticiwch un)

Nodyn i'r ymholwr: Mae cryn bwysiad ar y dimensiwn hwn – hynny yw os yw Cymru ar gyrion y busnes bydd i'r Gymraeg lai o statws a bri.

☐ Sir (nodwch)

☐ Ardal (e.e. Gogledd Cymru) ☐ Cymru Gyfan

☐ Prydain

☐ Rhyngwladol

☐ Arall (nodwch)

3. Nodwch dalgylch daearyddol eich busnes? ☐ Sir (nodwch) ☐ Ardal (e.e. Gogledd Cymru) ☐ Cymru Gyfan
☐ Prydain ☐ Rhyngwladol ☐ Arall (nodwch)

4. Nodwch faint o staff ar hyn o bryd sydd yn gweithio yn eich busnes (yng Nghymru)? Nifer: %: Ddim yn gwybod:

5. Nodwch nifer a % staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl? Nifer: %: Ddim yn gwybod:

6. Sut cawsoch chi at yr ateb hwn? [Er enghraifft, asesiad ffurfiol neu ffurflen hunan werthuso gan aelodau staff neu arall?] Ymholwr i nodi isod.

7. A yw hyn yn ymarfer ffurfioli rheolaidd? Ymholwr i nodi isod.

8. Nodwch pa sector (megis twristiaeth, hamdden neu fanwerthu) sy'n cynrychioli'ch busnes chi orau?

9. Oes gan eich busnes ... (ticiwch fel sy'n briodol).

☐ Polisi iaith Gymraeg

☐ Polisi Amrywiaeth

☐ Polisi Cyfle Cyfartal/ Cydraddoldeb

☐ Polisi Amgylchedd

☐ Polisi Gofal Cwsmer

☐ Polisi Cwynion

10. Beth oedd y cymhelliad dros fabwysiadu'r polisiâu uchod? Beth oedd (neu fyddai) yn eich sbarduno i fabwysiadu polisi iaith? Ymholwr i nodi isod.

11. Ddarau chi unrhyw ymchwil i'r farchnad neu astudiaeth achos busnes cyn ystyried mabwysiadu polisi iaith (ai peidio)? Ymholwr i nodi isod.

Rhan 2: Defnydd cyffredinol o'r Gymraeg gan eich Busnes (12 – 20) Pob Busnes i'w gwblhau

12. Nodwch nifer a % staff sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith trafod busnes gyda chwsmeriaid neu ddefnyddwyr? Golyga hyn gynnal y gwasanaeth yn Gymraeg.

Nifer: %: Ddim yn gwybod:

13. A yw hyn yn rhan o drefniant ffurfiol gan y busnes, cais gan gwsmeriaid neu fympwy staff unigol?

14. Sut cawsoch chi at yr ateb hwn? [Er enghraifft, asesiad ffurfiol neu ffurflen hunan werthuso gan aelodau staff neu arall?] Ymholwr i nodi isod.

15. Ydych chi fel cyflogwr wedi rhoi arweiniad a chanllawiau i staff ar sut i gyflawni hyn yn broffesiynol? Er enghraifft terminoleg eich priod faes yn Gymraeg? Cofnodi manylion ar ffeil ayyb? Ymholwr i nodi isod.

16. Nodwch % cwsmeriaid neu ddefnyddwyr sy'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? Nifer: %: Ddim yn gwybod:

17. Ai trwy asesiad ffurfiol, cwsmeriaid yn hysbysu'r busnes wrth rannu gwybodaeth bersonol, bod aelodau staff yn casglu gwybodaeth am gwsmeriaid unigol neu Arall y cafwyd yr wybodaeth am gwsmeriaid dwyieithog? Ymholwr i nodi isod.

18. Pa ganran o gwsmeriaid dwyieithog sy'n defnyddio'r Gymraeg trwy'r amser neu gan amlaf wrth ddelio a'ch busnes chi?

19. A oes bwriad i ffurfioli hyn yn y dyfodol er mwyn cael darlun cywir a chyflawn o broffil ieithyddol cwsmeriaid? Ymholwr i nodi isod.

20. Pa un (neu fwy) o'r opsiynau isod sy'n disgrifio orau graddfa darpariaeth gwasanaeth Cymraeg eich busnes i'ch Cwsmer? Ticiwch pob ateb priodol.

Nodyn i'r ymholwr: Os atebir 2 – 7 dylid holi sut aeth y busnes ati i sefydlu a darparu gwasanaeth Cymraeg a beth fu'r gwersi wrth fynd ati i gyflawni hyn?

☐ 1. Dim darpariaeth Gymraeg o gwbl – ewch ymlaen i gwestiwn 21.
☐ 2. Ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg yn unig
☐ 3. Gweledol yn unig: (pamffledi, arwyddion, taflenni, marchnata, brandio)
☐ 4. Rhyngpersonol/ llafar yn unig: (wyneb yn wyneb, mewn derbynfa neu wrth y cownter, dros y ffôn, uchelseinydd)
☐ 5. Gweledol, Llafar ac ysgrifenedig: Cynnal y busnes gyda'r cwsmer yn Gymraeg
☐ 6. Darpariaeth gwasanaeth gyflawn Gymraeg a'r iaith yn gynwysedig o fewn prosesau recriwtio a hyfforddi staff, cyfathrebu mewnol a datblygu polisïau
☐ 7. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)

Rhan 3: I'w gwblhau yn unig gan fusnesau sydd DDIM yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth (21 – 22)

21. Beth yw'r ffactorau sy'n golygu **NAD** yw eich cwmni yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth? Ticiwch pob un sy'n briodol.

☐ 1. Lleoliad daearyddol	☐ 10. Baich ychwanegol ar amser prin
☐ 2. Anfanteision Brandio/ Marchnata Dwyieithog	☐ 11. Ddim yn gweld mantais economaidd/ masnachol
☐ 3. Diffyg cefnogaeth staff	☐ 12. Diffyg gwybodaeth am broffil ieithyddol cwsmeriaid
☐ 4. Prinder staff hyderus dwyieithog	☐ 13. Natur arbenigol/ technegol ein maes gwaith
☐ 5. Diffyg galw ymhlith cwsmeriaid	☐ 14. Nid yw'r Gymraeg yn un o'n sgiliau
☐ 6. Ofni gelyniaethu cwsmeriaid	☐ 15. Diffyg darpariaeth cyrsiau Cymraeg i'r gweithle
☐ 7. Cyfleu delwedd anghywir	☐ 16. Diffyg dealltwriaeth o beth yw 'gwasanaeth Cymraeg addas'
☐ 8. Dymuniad i beidio uniaethu'n ormodol â Chymru	☐ 17. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 9. Rhy gostus	

22. Rhowch eich atebion yn eu trefn o ran pwysigrwydd gydag 1 yn bwysicaf ac yn y blaen.

Nodyn i'r ymholwr: Os atebir 1 – 17 dylid mynd dan groen yr ateb(ïon) yn fanylach a rhoi cyfle i'r busnes gynnig sylwadau pellach. Hynny yw, os atebir Diffyg cefnogaeth staff, a yw hynny'n deillio o ddiffyg gwybodaeth neu lefel gwybodaeth uchel ond nad yw priod faes y busnes yn apelio i siaradwyr Cymraeg? A yw patrwm neu draddodiad gwaith yn atal newid agweddau staff neu a oes ffactorau eraill ar waith? Os oes, beth ydynt?

23. Beth yw'r rhesymau sy'n selio'ch casgliad nad ydych yn gweld mantais economaidd/ masnachol o ddefnyddio'r Gymraeg? [Er enghraifft, cystadleuwyr busnes ddim yn cynnig unrhyw ddarpariaeth, lleoliad daearyddol, dim galw ymhlith cwsmeriaid neu natur amhersonol y busnes?] Ymholwr i nodi isod.

24. Ydych chi wedi ymchwilio i hyn mewn termau busnes – denu cwsmeriaid a throsiant ychwanegol? Ymholwr i nodi isod.

25. Beth fyddai'r cymhellion mwyaf i'ch busnes chi ystyried darparu gwasanaeth Cymraeg?

☐ 1. Cyngor/arweiniad ymarferol i reolwyr gan gyrff hybu/ cyngori busnes	☐ 6. Grantiau i gynyddu gwasanaeth dwyieithog
☐ 2. Mynediad am ddim i hyfforddiant Cymraeg i'r gweithle	☐ 7. Gwybodaeth am fanteision economaidd dwyieithrwydd
☐ 3. Gwybodaeth am ddarparwyr hyfforddiant Cymraeg i'n gweithle lleol (ni)	☐ 8. Ymgyrch prynu'n lleol/ o fewn Cymru
☐ 4. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth leithyddol	☐ 9. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 5. Tystiolaeth o alw ymhlith cwsmeriaid	

26. Gosodwch yr atebion yn eu trefn o ran pwysigrwydd gydag 1 yn bwysicaf ac yn y blaen.

Os atebir 1 – 9 dylid mynd dan groen yr ateb(ion) yn fanylach a rhoi cyfle i'r busnes gynnig sylwadau pellach. Hynny yw, os atebir Mynediad am ddim i hyfforddiant Cymraeg i'w gweithle, beth fydd anghenion yr hyfforddiant Cymraeg o ran cynnwys a math o gwrs. Un arall fyddai Gwybodaeth am fanteision economaidd dwyieithrwydd, pa fath o wybodaeth yn union – canlyniad arolwg barn neu tystiolaeth o fantais economaidd o fewn busnes neu sector, a thrwy pa gyfrwng – taflen, llyfryn, cyflwyniad mewn seminar.

27. Wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth Cymraeg dros y 5 mlynedd nesaf fydd eich busnes chi yn debygol o....? (Ticiwch un sy'n briodol)

- ☐ Barhau i beidio darparu gwasanaeth Cymraeg ☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn raddol
- ☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn fawr

28. Pa ffactorau ychwanegol fyddai yn eich cymell i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg? Er enghraifft, cyllid canolog, cymorth ymarferol ar safle, deunydd cyhoeddusrwydd rhad ac am ddim ayyb? Ymholwr i nodi isod.

Rhan 4: I'w gwblhau yn unig gan fusnesau sydd YN defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth (28 - 31)

29. Beth yw'r ffactorau sy'n golygu **FOD** eich busnes yn defnyddio'r Gymraeg gyda cwsmeriaid/ defnyddwyr gwasanaeth? Ticiwch pob un sy'n briodol.

☐ 1. Lleoliad daearyddol	☐ 10. Ddim yn faich ychwanegol ar amser prin
☐ 2. Manteision Brandio/ Marchnata Dwyieithog	☐ 11. Mantais economaidd/ masnachol
☐ 3. Cefnogaeth staff	☐ 12. Ymwybyddiaeth uchel o broffil ieithyddol cwsmeriaid
☐ 4. Digonedd o staff hyderus dwyieithog	☐ 13. Natur arbenigol ein maes gwaith yn cymhathu â'r Gymraeg
☐ 5. Galw ymhlith cwsmeriaid	☐ 14. Mae'r Gymraeg yn sgil sydd gennym ni.
☐ 6. Ennill cefnogaeth/ffyddlondeb cwsmeriaid	☐ 15. Darpariaeth ddigonol o gyrsiau Cymraeg i'r gweithle
☐ 7. Cyfleu delwedd gywir	☐ 16. Dealltwriaeth o beth yw 'gwasanaeth Cymraeg addas'
☐ 8. Dymuniad i uniaethu â Chymru	☐ 17. Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)
☐ 9. Yn gost effeithiol	

30. Gosodwch yr atebion yn eu trefn o ran pwysigrwydd gydag 1 yn bwysicaf ac yn y blaen.

Os atebir 1 – 17 dylid mynd dan groen yr ateb(ion) yn fanylach a rhoi cyfle i'r busnes gynnig sylwadau pellach. Hynny yw, os atebir Cefnogaeth staff, a yw hynny'n deillio o lefel gwybodaeth uchel fod priod faes y busnes yn apelio i siaradwyr Cymraeg? A yw traddodiad yn atgyfnerthu agweddau staff neu a ydynt yn gefnogol i'r Gymraeg? A oes gweledigaeth gan reolwyr y busnes neu ydy'r ddarpariaeth ddwyieithog wedi datblygu'n organig/ fymrwyl dros amser?

31. Yn eich busnes chi beth yn hollol yw natur y fantais economaidd/ masnachol yn sgil defnyddio'r Gymraeg? Er enghraifft, a oes disgwyliad cyhoeddus am wasanaeth Cymraeg, ydych chi eisiau denu cwsmeriaid Cymraeg yn benodol, ydy natur eich busnes yn gosod pwyslais am gyfathrebu hefo cwsmeriaid? Ymholwr i nodi isod.

32. Ydych chi wedi gwerthuso'r fantais economaidd/ masnachol hyn mewn termau busnes – er enghraifft o ran arwain at ddenu mwy o gwsmeriaid, trosiant elw ychwanegol neu gynyddu teyrngarwch cwsmeriaid? Ymholwr i nodi isod.

33. Wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth Cymraeg dros y 5 mlynedd nesaf fydd eich busnes chi yn debygol o....? (Ticiwch un sy'n briodol)

☐ Leihau'r gwasanaeth Cymraeg

☐ Barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'r graddau presennol

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn raddol

☐ Gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn fawr

☐ Amherthnasol - Gwasanaeth cyflawn Gymraeg eisoes ar gael

34. Pa ffactorau ychwanegol fyddai yn eich cymell i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg ymhellach? Er enghraifft cyllid canolog, cymorth ymarferol ar safle, deunydd cyhoeddusrwydd rhad ac am ddim ayyb? Ymholwr i ateb isod.



Y Ganolfan Rheolaeth

Ysgol Busnes Bangor Business School
The Management Centre

Canolfan Ymchwil Busnes a
Gwybodaeth o'r Farchnad



ffôn: 01248 365909

ebost: www.themanagementcentre.co.uk